# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 12fed Rhagyfr 2022**, yn Neuadd Goffa, Sarn, o 7.30 p.m. hyd 8.15 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Siôn Williams (Is-Gadeirydd yn cadeirio yn absenoldeb y Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Gwenan Griffiths, Dylan Parry Jones, Efan Thomas, Iwan J. Williams, Glenys Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Glyn Roberts, Michael Strain, Carys E. Williams

71. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**Croesawodd** yr Is-Gadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

72. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

73. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 14eg TACHWEDD, 2022**

**Cyflwynwyd,** cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 14eg Rhagfyr, 2022. (Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Carys H. Evans ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams gyda phawb yn cytuno).

**Materion yn codi**

**(A)Eitem 66 – Cyrsiau Un Llais Cymru**

**Adroddod** Y Clarc fod y Cynghorydd Gwenan Griffiths, oherwydd amgylchiadau, wedi methu bod yn rhan o'r cwrs 'Dealltwriaeth o'r Gyfraith' oedd i'w gynnal 24ain Tachwedd, 2022, ac eisiau cael mynd ar yr un cwrs ar ddyddiad arall. Deallwyd gan Wendi Patience o Un Llais Cymru na fyddai modd cael ad-daliad o fethiant mynychu cwrs.

**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth ac aros am ddyddiadau yn y flwyddyn newydd.

**(B)Eitem 70 – Newyddion i Llanw Llyn**

**Adroddodd** y Clarc iddi gael ar ddeall gan Twrog Jones, Llanw Llyn, y byddai modd cynnwys crynodeb o'r materion drafodir yn y Cyngor yn y papur misol.

**Penderfynwyd** nodi ac anfon crynodeb ar gyfer mis Ionawr, 2023.

74. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

**Cyflwynwyd** cais C22/1132/32/LL sef cais ar gyfer codi to dros pit silwair yn Fferm Bryn Mawr, Bryn Mawr.

**Penderfynwyd** cefnogi'r cais.

75. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

**Tynnwyd** sylw fod angen llenwi'r bocs graean sydd ar allt Tyn y Coed, Sarn Mellteyrn ac addawodd Y Cynghorydd Siôn Williams y byddai'n cael golwg ar finiau eraill cyn i'r Clarc anfon at y Swyddog perthnasol yng Nghyngor Gwynedd.

**Penderfynwyd** gweithredu yn dilyn derbyn gwybodaeth ac awdurdodi os yw'r biniau yn dangos llai na hanner llawn gofyn am iddynt gael eu llenwi i fyny.

**Yn y cyswllt hwn, penderfynwyd** gwneud ymholiadau beth yw'r diweddaraf ynglyn a chael bin halen ar Ystad Bryn Mair, Bryncroes.

76. **AWDURDOD I DALU**

**Penderfynwyd** awdurdodi'r taliadau a ganlyn:

**Y taliadau a ganlyn o'r cyfrif cyfredol:**

| | |
|---|---|
| J.A. Pozzi – Comin Bryncroes | £1,260.00(cynnwys TAW) (200767) |
| J.A. Pozzi – barbio a glanhau wyneb Llwybr Bach, | £ 204.00 (cynnwysTAW)(200767) |
| HMRC | £ 93.20 (200765) |
| Y Clarc | £ 372.55 (200766) |

**Y taliadau hyn o gyfrif y fynwent:**

| | |
|---|---|
| J.A. Pozzi – Mynwent Llandegwnning | £660.00 (cynnwys TAW) (100054) |
| J.A. Pozzi – torri gwrych y y Fynwent | £ 40.80 (cynnwys TAW) (100054) |

**77. AMBIWLANS AWYR Y TRALLWNG**

**Cyflwynwyd** e-bost gan Un Llais Cymru fod gwybodaeth a fideo i'w gweld ar YouTube ynglyn a bwriadau Ambiwlans Awyr Cymru – y linc yn https://youtu.be/ZCluzxrm3bE
**Penderfynwyd** fod y mater yma i'w drafod yng nghyfarfod mis Ionawr o'r Cyngor.

78. **MEDDYGFA RHYDBACH, BOTWNNOG**

**Cyflwynwyd** adroddiad gan Y Cynghorydd Gareth Williams, Cynghorydd Pen Draw Llyn, yn dilyn ei gyfarfod diwetharaf a Swyddogion Meddygfa Rhydbach ym mis Tachwedd.
**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth.
**Yn y cyswllt hwn,** mynegodd un o'r aelodau bryder ddaeth i'w sylw'n ddiweddar pryd y bu i ŵr oedrannaus geisio defnyddio y peiriant mewngofnodi a methu ac iddo fynd i'r ddesg i ofyn am help a'r ymateb gafodd oedd "if you can't use the machine you can't see a Doctor." Yn ffodus i'r claf 'roedd merch ifanc wedi clywed hyn oll ac yn barod iawn i'w helpu. Teimlwyd fod ymateb fel hyn yn hollol afresymol a **phenderfynwyd** tynnu sylw'r Rheolwr at hyn.